

# Agenda – Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd Llew Williams  
Dyddiad: Dydd Iau, 8 Chwefror 2024 Clerc y Pwyllgor  
Amser: 10.40 0300 200 6565  
[SeneddDiwylliant@senedd.cymru](mailto:SeneddDiwylliant@senedd.cymru)

## Hybrid

---

### Cofrestru cyn y cyfarfod

(10.10 – 10.40)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(10.40)

#### 2 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: sesiwn dystiolaeth gyda deddfwrfeydd eraill (1)

(10.40 – 11.25)

(Tudalennau 1 – 22)

Kevin Brennan MP, Tŷ'r Cyffredin, Senedd y DU

Y Farwnes Bull, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd y DU

##### Dogfennau atodol:

Briff ymchwil: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

#### 3 Papurau i'w nodi

(11.25)

##### 3.1 Baden–Württemberg: Cyd–ddatganiad Cydweithredu

(Tudalennau 23 – 24)

##### Dogfennau atodol:

Ymateb gan y Prif Weinidog: Baden–Württemberg: Cyd–ddatganiad

Cydweithredu – 29 Ionawr 2024



### **3.2 Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol**

(Tudalennau 25 – 35)

#### **Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth:

Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol – 29 Ionawr 2024

Ymateb Llywodraeth Cymru: Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol

### **3.3 Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi**

(Tudalennau 36 – 37)

#### **Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth:

Cyngor Celfyddydau Cymru: Adolygiad Buddsoddi – 24 Ionawr 2024

### **3.4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25**

(Tudalennau 38 – 41)

#### **Dogfennau atodol:**

Llythyr at Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth:

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 24 Ionawr 2024

Llythyr gan PCS Llyfrgell Genedlaethol Cymru a PCS Amgueddfa Cymru:

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 30 Ionawr 2024 (Saesneg yn unig)

### **3.5 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 42 – 43)

#### **Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Prif

Weinidog: Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth

Ddigidol – 31 Ionawr 2024

### **3.6 Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru**

(Tudalennau 44 – 55)

#### **Dogfennau atodol:**

Ymateb gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth:

Cyhuddiadau yn ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru – 31 Ionawr 2024

Atodiad 1: Protocol ar gyfer ymdrin â phryderon ynghylch derbynwyr grantiau a darparwyr gwasanaethau Llywodraeth Cymru (Saesneg yn unig)

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 6, 7, 8 a 10**

(11.25)

**5 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: trafod y dystiolaeth**

(11.25 – 11.45)

**6 Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad: trafod y materion allweddol**

(11.45 – 12.00)

(Tudalennau 56 – 60)

**Dogfennau atodol:**

Papur ar y materion allweddol: Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad (Saesneg yn unig)

**7 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth**

**Ddigidol: trafod yr adroddiad drafft**

(12.00 – 12.10)

(Tudalennau 61 – 76)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad ddrafft: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2) (Saesneg yn unig)

**8 Trafod y blaenraglen waith ar gyfer y gwanwyn 2024**

(12.10 – 12.15)

(Tudalennau 77 – 79)

**Dogfennau atodol:**

Blaenraglen waith: gwanwyn 2024 (Saesneg yn unig)

**Cinio**

(12.15 – 13.00)

**9 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: sesiwn dystiolaeth gyda chyrff ymbarél (2)**

(13.00 – 14.00)

(Tudalennau 80 – 100)

Eluned Haf, Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

Tom Kiehl, Prif Weithredwr Dros Dro, UK Music

Ruth Cocks, Cyfarwyddwr, British Council Cymru

**Dogfennau atodol:**

Tystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol  
Cymru: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE

Tystiolaeth gan UK Music: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE (Saesneg yn  
unig)

Tystiolaeth gan British Council: Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE  
(Saesneg yn unig)

**10 Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE: trafod y dystiolaeth**

(14.00 – 14.15)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Delyth Jewell AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon  
a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru

29 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Rwy'n ymateb i'ch llythyr ar 20 Rhagfyr ar Baden-Württemberg (B-W).

Mae perthynas Rhagfyr â Baden-Württemberg yn un hirsefydlog; mae'r Datganiad yr ydych yn gyfeirio ato yn diweddarau ein cydweithrediad ar ffurf Llywodraeth i lywodraeth ac yn canolbwyntio ar weithgarwch yn y dyfodol.

Yn yr ymateb i Argymhelliad 11, dywedwyd bod *"pob perthynas ryngwladol yn wahanol ac wedi'i datblygu mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol. Felly, efallai nad oes ffordd unffurf o wneud hyn. Bydd Llywodraeth Rhagfyr yn ystyried canfyddiadau Adroddiad y Pwyllgor wrth ddatblygu, neu fabwysiadu, Cyd-Ddatganiadau ar gyfer datblygu cysylltiadau rhyngwladol eraill sydd â blaenoriaeth.*

Nid yw ein cytundeb gyda llywodraeth B-W yn dilyn cynllun gweithredu manwl neu ffurfiol. Yn hytrach, rydym wedi cytuno i ddefnyddio ein Datganiad fel llwyfan i ymateb i gyfleoedd wrth iddynt godi ar draws chwe maes blaenoriaeth:

- I. Ymgysylltiad Dwyochrog
- II. Masnach ac Entrepreneuriaeth
- III. Gwyddoniaeth ac Ymchwil
- IV. Addysg ac Ieuencid
- V. Diwylliant a Chymunedau
- VI. Yr Amgylchedd a Diogelu'r Hinsawdd

Yn ymarferol, mae pob perthynas â'n partneriaid yn unigryw. Rydym yn cydweithio i greu math o gydweithrediad sy'n gweddu orau i anghenion partneriaid a gwahanol ffyrdd o weithio; mae rhai yn fyr ac yn strategol tra bod eraill yn hirach ac yn fanwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru)  
[Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales](mailto:Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn B-W i ddatblygu rhaglen o weithgareddau ar gyfer 2024-25 i sicrhau bod y Datganiad yn cael ei gyflawni. Unwaith y byddwn wedi cytuno ar y rhaglen hon, byddaf yn hapus i rannu trosolwg o'r prif ddigwyddiadau a gweithgareddau.

Fel y nodwyd mewn llythyr blaenorol at y Pwyllgor ar 7 Rhagfyr 2022, nid ydym yn cyhoeddi manylion llawn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond, ar gais y Pwyllgor, rydym wedi sefydlu tudalen ar y we sy'n crynhoi pob cytundeb yn lle hynny.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb yma o gymorth – rwy'n anfon copi at Vaughan.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mark Drakeford". The signature is written in a cursive, slightly slanted style.

**MARK DRAKEFORD**



Delyth Jewell AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Senedd Cymru

26 Ionawr 2024

## Yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru

Annwyl Delyth Jewell AS

Rwy'n ysgrifennu atoch i ddarparu ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - Yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a gyhoeddwyd ar 15 Rhagfyr 2023.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am ystyried y pwnc ac am gyhoeddi'r adroddiad. Rwy'n cydnabod y gwaith pwysig a wnaed gan Bwyllgorau ac yn croesawu'r adroddiad a'r argymhellion ynddo.

Gwnaeth yr adroddiad gyfanswm o naw argymhelliad. Mae swyddogion wedi gweithio gyda thîm prosiect yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru i ddatblygu'r ymateb ynghlwm i'r argymhellion a wnaed.

Byddaf yn parhau i roi gwybod i'r Pwyllgor am gynnydd wrth i'r prosiect barhau i ddatblygu, darparu'r Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, a chyflawni ei cherrig milltir allweddol.

Yn gywir

Dawn Bowden AS/MS  
Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.





# Ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd

## Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru, Rhagfyr 2023

### Argymhelliad 1.

Dylai Llywodraeth Cymru roi amcangyfrif o'r cyllid refeniw parhaus ar gyfer yr Oriel Genedlaethol, ac egluro ai cyllid newydd i'r sector diwylliant fydd hwn, neu'n aildyrannu cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i gyrrff diwylliant eraill.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Bydd yr achos busnes llawn ar gyfer y model orielau gwasgaredig, pan gaiff ei gyflwyno, yn rhoi amcangyfrif o'r cyllid refeniw y bydd ei angen er mwyn gweithredu'r rhwydwaith gwasgaredig o orielau. Bydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno ddiwedd mis Ionawr 2024, cyn iddo gael ei asesu drwy broses y Porth.

Yn ystod y trafodaethau gyda'r partneriaid, rydym wedi canolbwyntio ar leihau'r cymorth refeniw parhaus y bydd ei angen oddi wrth y sector cyhoeddus er mwyn gweithredu'r rhwydwaith, ar ôl i'r buddsoddiad cyfalaf gael ei gwblhau. Ni fydd angen unrhyw gyllid parhaus ar gyfer yr orielau yn y rhwydwaith nes y bydd y buddsoddiad cyfalaf wedi'i gwblhau ddiwedd mis Mawrth 2025.

Mae'r tri phartner a'r naw oriel a fydd yn rhan o'r rhwydwaith wrthi'n edrych ar y toriadau cyllid ar gyfer 2024-25 a thu hwnt. Er hynny, mae'r holl bartneriaid cyflawni yn parhau'n ymrwymedig i'r fenter hon ond yn cydnabod y gallai fod angen ailbennu blaenoriaethau er mwyn cael y maen i'r wal.

O gofio'r sefyllfa ariannol heriol sydd ohoni, byddai angen i unrhyw gyllid parhaus y byddai ei angen oddi wrth y sector cyhoeddus ddod o'r setliad cyllideb/gyllideb sylfaenol a bennir ar y pryd. (Dylid nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru gyllidebau dangosol ar gyfer y cyfnod ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 ac y byddai'r cyllidebau hynny'n ddibynnol ar brosesau pennu cyllidebau a fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol.) Byddai'r gofynion o ran cyllid yn seiliedig ar y model gweithredu y cytunir arno ar ôl mis Mawrth 2025 ac, unwaith eto, fe'u darperir pan fydd yr achos busnes llawn yn cael ei gyflwyno. O gofio'r pwysau ar y gyllideb, model gweithredu "darbodus" sy'n cael ei ddatblygu yn yr achos busnes llawn ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes.

Wrth foddelu'r trefniadau gweithredu a llywodraethu at y dyfodol, mae cynllun cyllido sy'n ceisio sicrhau cyllid o amryfal ffynonellau yn cael ei ddatblygu hefyd er mwyn cefnogi'r uchelgais o sicrhau bod yr Oriel Gelf Gyfoes yn dod yn fwy cynaliadwy yn ariannol yn y tymor hwy.

Megis dechrau y mae'r gwaith o amcangyfrif y costau a fydd yn gysylltiedig â sefydlu a rhedeg Oriel Angori i Gymru. Ni ellir darparu amcangyfrifon realistig o'r costau hyd nes y dewisir safle, tan y cytunir ar y dyluniad, a hyd nes y datblygir model

gweithredu. Bydd achos busnes manwl a fydd yn cynnwys yr wybodaeth hon yn cael ei ddatblygu ar ôl i safle penodol gael ei ddewis.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ychwanegol o ran cyllid y tu hwnt i'r costau sydd i'w gweld yn yr achos busnes amlinellol a gymeradwywyd ar gyfer y model gwasgaredig. Bydd unrhyw gostau sydd eto i'w nodi ar gyfer y cyfnod ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

## **Argymhelliad 2.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y camau y mae wedi'u cymryd ers 2018 i feintio i'r galw tebygol am yr Oriel Genedlaethol a chyfleoedd refeniw newydd.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae'r dystiolaeth am yr angen yn 2018 ac yn ystod y cyfnod ers hynny yn dod o nifer o ffynonellau, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol 2021-22 ac Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru sy'n cael ei gynnal bob chwe mis. Defnyddiwyd y dystiolaeth honno yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r achos busnes.

Mae Covid wedi cael effaith ddifrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ar y niferoedd sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddydol ac sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau, ac mae'r niferoedd hynny'n parhau'n is nag ar gyfer y DU gyfan. Mae arolygon a gynhaliwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn dangos bod yr argyfwng costau byw yn dal i gael effaith negyddol ar y niferoedd sy'n ymwneud â'r celfyddydau.

Aed ati yn Arolwg Cenedlaethol 2021-2022 i ofyn i'r ymatebwyr a oeddent wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau celfyddydol yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd cyfanswm o 8% o'r ymatebwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol ac mae'r ganran honno'n dangos bod y lefel yn isel a bod angen gweithgareddau o'r fath. Mae Arolwg Portffolio Celfyddydau Cymru yn casglu gwybodaeth am nifer y digwyddiadau celfyddydol sy'n cael eu cynnal bob blwyddyn a faint o bobl sydd wedi bod mewn gweithgareddau o'r fath neu wedi cymryd rhan ynddynt. Mae'r arolwg ddiweddaraf (12.05.2023) ar gael ar-lein.

Un o amcanion gwariant y prosiect yw ysgogi cynnydd o 3% o'r naill flwyddyn i'r llall yn y cynulleidfaoedd sy'n mynd i weld celf gyfoes ledled Cymru, gan sicrhau cynnydd o 30% erbyn Mawrth 2035. Felly, mae'r sylw'n cael ei hoelio'n glir iawn ar gynyddu'r galw a chyfranogiad o'r lefelau isel iawn a gafodd eu cofnodi dros amser.

I gefnogi'r amcan hwnnw, bydd y ffigurau blynyddol am y niferoedd a fydd yn mynd i weithgareddau celfyddydol, yn ogystal â'r niferoedd a fydd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath, yn nodwedd hollbwysig o'r gwaith monitro ar draws y rhwydwaith orielau.

O ran cyfleoedd i ddenu cyllid refeniw, unwaith eto, bydd asesiad yn yr achos busnes llawn o'r cyfleoedd i sicrhau refeniw ychwanegol, fel y nodwyd yn y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor.

Mae cyfleoedd i ddenu refeniw newydd yn cael eu hystyried wrth inni ddatblygu cynllun ariannu cadarn ar gyfer model gweithredu y cytunir arno ar gyfer y cyfnod ar ôl mis Mawrth 2025, ac mae'r gwaith hwnnw'n rhan o'r achos busnes llawn ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol. Gwelwyd, drwy'r gwaith hwnnw, fod rhai arwyddion cadarnhaol o ran cyfleoedd refeniw yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen adnodd datblygu pwrpasol er mwyn creu ffrwd incwm o'r fath.

Mae datblygu ffrydiau incwm refeniw yn waith hirdymor a pharhaus sy'n golygu bod angen cynnwys cyfres o ragolygon pendant yn y model gweithredu. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae'n debyg y bydd yr Oriel Gelf Gyfoes yn wynebu cryn gystadleuaeth am incwm refeniw yn ystod y tymor byrrach.

Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei diweddarau'n gyson wrth inni ddatblygu'r achos busnes, wrth inni fonitro'r gwaith o weithredu'r prosiect ac wrth inni gyflwyno adroddiadau yn y dyfodol ac, o'r herwydd, ni ddylai fod angen paratoi adroddiadau ar wahân am yr elfen hon ar gyfer y Pwyllgor.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn ystod cyfnod y gyllideb bresennol. Bydd unrhyw gostau sydd eto i'w nodi ar gyfer y cyfnod ar ôl blwyddyn ariannol diubynnu 2024-25, yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

### **Argymhelliad 3.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn ynghylch asesiad o effaith y cynnig ar raglenni arddangos presennol.

### **Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Mae mynd ati i gynllunio ar y cyd yn rhan annatod o'r model ar gyfer yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac rydym yn ystyried ac yn sefydlu strwythurau er mwyn sicrhau bod y gwaith o raglennu arddangosfeydd yn cael ei gynllunio mewn ffordd gydlynus a chydlynol.

Ar gyfartaledd, mae'r amser paratoi ar gyfer cynllunio rhaglenni arddangos sefydliadau diwylliannol a threftadaeth yn amrywio o 18 mis, man lleiaf, i dair blynedd, neu gall fod yn hirach weithiau. Cafodd y rhaglenni arddangos presennol eu creu sawl blwyddyn yn ôl ac, o'r herwydd, nid yw'r fenter newydd hon yn dylanwadu arnyn nhw.

O ran y dyfodol, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i rannu'r gwaith rhaglennu creadigol a'r amserlennu, gan wneud hynny ar draws gweithgareddau arddangos a dysgu ac ar draws gweithgareddau ymgysylltu ehangach. Bydd asesiadau effaith yn cael eu cynnal wrth i raglen arddangos yr Oriel Gelf Gyfoes gael ei datblygu.

Yn ystod y cyfnod cyflenwi hwn, bydd y prosiect yn comisiynu asesiadau Meincnodi ac Effaith er mwyn nodi'r cyfleoedd i gael fwy o effaith ac i sicrhau bod y model a'r gwaith sy'n cael ei wneud arno yn elwa i'r eithaf ar yr amserlennu, gan gynnig yr arlwy mwyaf posibl i'r cyhoedd.

Bydd yr Achos Busnes Llawn yn cynnwys cynlluniau i gomisiynu arolygon ychwanegol a fydd yn cael eu cynnal ym mhumed a degfed blwyddyn cam nesaf prosiect yr Oriol Gelf Gyfoes, er mwyn asesu ei effaith ehangach ar y cyhoedd yng Nghymru.

#### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn ystod cyfnod y gyllideb bresennol. Bydd unrhyw gostau sydd eto i'w nodi ar gyfer y cyfnod ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

#### **Argymhelliad 4.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddychwelyd at y Pwyllgor yn gynnar yn nhymor seneddol haf 2024, gyda diweddariad a chynlluniau manylach. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru egluro faint o ofod oriel newydd net a gaiff ei greu.

#### **Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Un o'r amcanion gwariant yw sicrhau bod 2,000 - 3,000 o fetrau sgwâr o ofod arddangos parhaol neu dros dro, a fydd yn cydymffurfio â safonau Grwp Cofrestryddion y DU (UKRG), yn cael eu darparu ledled Cymru erbyn mis Mawrth 2025 er mwyn arddangos casgliad cenedlaethol Cymreig o gelf gyfoes a chanfod ffyrdd arloesol o arddangos celf gyfoes mewn lleoliadau awyr agored.

Felly, nid creu swm net o ofod newydd ar gyfer orielau yw unig nod y prosiect. Mae am sicrhau hefyd fod y gofod sydd eisoes ar gael ar gyfer orielau yn cyrraedd safonau Grwp Cofrestryddion y DU/Cynllun Indemniad y Llywodraeth (GIS) ac yn cydymffurfio â nhw.

Mae canllawiau GIS yn set o feincnodau a gofynion sylfaenol ar gyfer arddangos a storio darnau o waith o'r casgliad cenedlaethol y gellir eu hyswirio o dan gynllun a gefnogir gan y llywodraeth, ac fe'u bwriedir ar gyfer darnau o waith na fyddai'n economaidd eu hyswirio fel arall.

Drwy fuddsoddi mewn gofod ar gyfer orielau a thrwy ddefnyddio buddsoddiad cyfalaf i wella'r gofod hwnnw er mwyn iddo gydymffurfio â safonau GIS, bydd y model yn darparu amgylcheddau diogel lle bydd yr hinsawdd yn cael ei reoli a lle gellir trefnu rhaglen i arddangos darnau o waith o'r casgliad cenedlaethol mewn ffordd ddiogel.

O dan y fenter hon, bydd 2,455 o fetrau sgwâr o ofod ychwanegol ar draws Cymru yn cael ei wella er mwyn iddo fodloni safonau GIS. Ar y cyd â'r manau arddangos yn Amgueddfa Cymru, mae hynny'n golygu, ar ôl i'r rhaglen buddsoddiad cyfalaf gael

ei chwblhau, y bydd gan yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol hyd at 3,000 o fetrau sgwâr o ofod arddangos parhaol neu dros dro o ansawdd cyson uchel, ar draws Cymru, i arddangos casgliad cenedlaethol Cymru o gelf gyfoes. Dyma'r opsiwn a ffeirir yn yr achos busnes amlinellol.

O ran Oriol Angori bosibl, dyma rai o'r meini prawf a bennwyd ar gyfer safleoedd ymgeisiol:

- rhwng o leiaf 7,500m<sup>2</sup> ac uchafswm o 12,000-15,000m<sup>2</sup>, gydag o leiaf 2/3ydd yn ofod ar gyfer orielau; ac
- o leiaf un oriel sengl 1,000m<sup>2</sup> fydd â'r potensial i'w hestyn yn y dyfodol.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw ofyniad ychwanegol o ran cyllid y tu hwnt i'r gofyniad a nodwyd yn yr achos busnes amlinellol. Bydd unrhyw gostau sydd eto i'w nodi ar gyfer y cyfnod ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

### **Argymhelliad 5.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn bob chwe mis am hynt y gwaith o gyflawni'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol. Dylai hyn gynnwys a yw amserlenni a cherrig milltir allweddol yn cael eu bodloni ai peidio.

### **Ymateb:** Gwrthod

Yn ystod y chwe mis diwethaf, mae Tîm Prosiect yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol wedi bod yn canolbwyntio ar gryfhau strwythur llywodraethu'r Oriol. Mae hefyd wedi ehangu Bwrdd y Prosiect er mwyn cynnwys aelodau annibynnol ac mae wedi sefydlu is-grwpiau sy'n cynnwys grŵp ehangach o randdeiliaid.

Yn ogystal â gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y prosiect, mae proses oruchwylio fwy cadarn ar waith bellach, ac mae Bwrdd Prosiect yr Oriol yn mynd ati yn ystod ei gyfarfodydd misol i fonitro cynnydd ar y prosiect a'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef.

Er bod cynnydd da yn cael ei wneud bellach ar y model ar gyfer yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol, ni theimlir mai ymrwymo i fynd ati bob chwe mis i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect i'r Pwyllgor yw'r ffordd fwyaf perthnasol o weithredu yn ystod y cam hwn o'r amserlen gyflawni.

Cynigir, felly, fod unrhyw ddiweddariadau yn cael eu rhoi yn yr adroddiadau y bwriedir eu paratoi ynglŷn â chyrraedd y cerrig milltir neu'r targedau y cytunir arnynt ar gyfer y prosiect, er enghraifft, y cerrig milltir a'r targedau a fydd yn cael eu cynnwys yn llythyr Dyfarnu Cyllid Llywodraeth Cymru.

Gall Cadeirydd y Bwrdd Prosiect ddarparu diweddariad ysgrifenedig ar ôl i'r cynllun busnes llawn gael ei gyflwyno ac ar ôl iddo gael ei adolygu'n llwyddiannus. Gellir darparu rhagor o ddiweddariadau wedyn wrth i gerrig milltir gael eu cyflawni.

Dylid amseru unrhyw adroddiadau i adlewyrchu'r ffaith bod cerrig milltir allweddol wedi'u cyflawni ac ni ddylid roi mwy o faich ar bartneriaid cyflawni yr ydym yn cydnabod bod ganddynt lawer i'w gyflawni cyn mis Ebrill 2025.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol yn ystod cyfnod y gyllideb bresennol. Bydd unrhyw gostau ar gyfer y cyfnod ar ôl y flwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

## **Argymhelliad 6.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu cynllun cyfathrebu clir i annog cymorth ac eiriolaeth dros yr Oriel Genedlaethol ar draws y sector

### **Ymateb: Derbyn**

Yn ogystal â'r is-grwpiau rhanddeiliaid ehangach, mae gan Fwrdd Prosiect yr Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol Is-grŵp Cyfathrebu ac arno bobl cymwys sy'n cynrychioli pob un o'r sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae gan y Grŵp hwnnw amserlen cyfarfodydd ffurfiol ac mae cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru yn arsylwi yn y cyfarfodydd hynny.

Ym mis Tachwedd 2023, bu Is-grŵp Cyfathrebu'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol yn goruchwyllo'r broses o benodi asiantaeth allanol, a fydd yn mynd ati i ddatblygu ac i baratoi cynllun cyfathrebu amlinellol ar gyfer yr Oriel. Cynhaliwyd gweithdai cyfathrebu gydag ystod o randdeiliaid ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2023, a chafodd Cynllun Cyfathrebu drafft ei gyflwyno i Fwrdd Prosiect yr Oriel yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024.

Rhagwelir y bydd y gwaith o gyflenwi'r cynllun yn dechrau gyda chyhoeddiad ffurfiol ym mis Mawrth 2024 am fuddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru, ar ôl i'r prosiect gyflwyno cynllun busnes llawn ac ar ôl i'r cynllun hwnnw gael ei adolygu'n llwyddiannus.

Bydd y gwaith ar y Cynllun Cyfathrebu y cytunwyd arno yn parhau tan ddiwedd y cyfnod cyflenwi presennol ym mis Mawrth 2025. Mae wedi crynhoi amcanion yr ymgyrch. Mae rhai ohonynt i'w gweld isod, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r rhain: gyfyngedig i':

- Esbonio, meithrin rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Oriel Gelf Gyfoes Genedlaethol ac o'r model gwasgaredig unigryw;
- Cefnogi amcanion y prosiect i sicrhau bod rhagor o bobl na'r niferoedd sylfaenol presennol yn mynd i orielau ledled Cymru;
- Meithrin ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r rôl y gall celf gyfoes ei chwarae ym mywydau pobl mewn cymunedau ledled Cymru, a meithrin y berthynas rhyngddynt;

- Ysbrydoli rhagor o bobl i ymweld ag orielau'r Oriol Gelf Gyfoes a meithrin mwy o ddiddordeb yn y casgliadau celf gyfoes cenedlaethol drwy lwyfannau digidol;
- Eirioli dros yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol ar blatfformau ledled y DU ac yn rhyngwladol; a
- Meithrin cysylltiadau a chreu cyfleoedd ar gyfer artistiaid cyfoes yng Nghymru.

Mae datblygu a darparu Cynllun Cyfathrebu ar gyfer yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol yn ddarn o waith ar wahân ond mae'n cael ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith ar ddatblygu brand yr Oriol. Mae'r Cynllun yn cael ei lywio gan y gwaith sy'n cael ei wneud ar y brand ac mae o gymorth i ddatblygu'r brand. Mae datblygu brand yn becyn gwaith pwrpasol a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2023 ac mae disgwyl i gam cyntaf y gwaith hwnnw gael ei gymeradwyo erbyn mis Ebrill 2024.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r rheini a gafodd eu costio yn yr achos busnes amlinellol a gymeradwywyd. Bydd unrhyw gostau ar gyfer gweithgarwch ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol yn unol â model 'busnes fel arfer'.

### **Argymhelliad 7.**

Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynllun clir ar gyfer ehangu ymgysylltiad â'r sector celfyddydau gweledol, gan gynnwys darparwyr sector cyhoeddus, trydydd sector a sector preifat, i sicrhau bod yr ystod ehangaf o safbwyntiau a phrofiadau'n cael eu hystyried wrth gynllunio a dylunio'r elfennau sy'n weddill o'r Oriol Genedlaethol.

### **Ymateb: Gwrthod**

Mae'r model llywodraethu ar gyfer cam presennol yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol wedi cael ei gryfhau gryn dipyn yn ystod y chwe mis diwethaf, gan gynnwys cyfethol tri aelod annibynnol i'r Bwrdd Prosiect. Mae un o'r aelodau cyfetholedig yn artist gweledol o Gymru sy'n arfer ei grefft ar hyn o bryd a bydd yn parhau, ar lefel y Bwrdd Prosiect, i ddylanwadu ar y gwaith o gynllunio'r model at y dyfodol.

Hefyd, cafodd strwythur o is-grwpiau ffurfiol, pob un ohonynt â'i gylch gorchwyl ffurfiol ei hun, ei greu o dan y Bwrdd yn hydref 2023. Bydd dau o'r rhain, Is-grŵp yr Oriol a'r Is-grŵp Rhanddeiliaid yn parhau i chwarae rhan ganolog wrth sicrhau bod gwaith ymgysylltu ehangach yn parhau i gael ei wneud ar draws yr Oriol Gelf Gyfoes. Mae aelodaeth yr ail grŵp a grybwyllir uchod yn cynnwys cymysgedd o aelodau cyfetholedig o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, gan gynnwys twristiaeth, ac mae'r aelodau eraill yn cael eu recriwtio drwy broses galwadau agored.

Mae creu Tîm Prosiect ar gyfer yr Oriol ym mis Awst 2023 wedi arwain at gryn welliant yn y gwaith ymgysylltu ehangach ar draws y prosiect, ac mae Cyfarwyddwr Creadigol a Chyfarwyddwr Prosiect yr Oriol yn mynd ar drywydd cyfleoedd i ddenu safbwyntiau a phrofiadau mwy amrywiol a allai ddylanwadu ar y cam cyflenwi sy'n



mynd rhagddo ar hyn o bryd. Hyd yn hyn, mae'r cyfleoedd hynny wedi amrywio o gynnal gweithdai ar gyfer rhanddeiliaid i gyflwyniadau ar gyfer y sector. Mae hwn yn weithgarwch parhaus sydd â'r nod o lywio a chodi ymwybyddiaeth am yr Oriol, a hefyd o roi cyfle i ddylanwadu ar y gwaith o'i datblygu ac ar gyflenwi'r cam presennol.

O ystyried y gwaith hwn a'r gwaith ar y Cynllun Cyfathrebu sydd, ill dau, yn mynd i'r afael â'r materion allweddol, nid ystyrir bod angen cynllun ar wahân i ehangu'r gwaith ymgysylltu ar hyn o bryd.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r rheini a gafodd eu cynnwys yn y cynllun busnes amlinellol. Bydd unrhyw gostau ar gyfer y cyfnod ar ôl y flwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.

### **Argymhelliad 8.**

Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod y timau brandio a marchnata a'r sector twristiaeth yn gweithio'n agos i alinio cynlluniau ar gyfer yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru a sicrhau y cânt eu hymgorffori mewn ymgyrchoedd twristiaeth.

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r gwaith o ddatblygu brand yr Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol ac o gynllunio'r gwaith marchnata a chyfathrebu ar ei chyfer wedi dechrau, ond nid yw wedi'i gwblhau eto. Mae'r Tîm Prosiect yn ymwybodol y byddai'n fuddiol sicrhau bod y gwaith uchod yn cyd-fynd yn agosach ag ymgyrchoedd twristiaeth perthnasol ac yn cael eu hintegreiddio â nhw er mwyn helpu i ennyn diddordeb ymwelwyr ar draws ardaloedd y rhwydwaith orielau gwasgaredig.

Dechreuodd Tîm Prosiect yr Oriol a'r asiantaethau allanol sydd wrthi'n helpu gyda'r gwaith brandio a chyfathrebu ar ei chyfer ar gyfres o gyfarfodydd ffurfiol ym mis Ionawr 2024 gydag adrannau perthnasol y llywodraeth a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, gan wneud hynny'n benodol er mwyn cefnogi'r diben hwnnw. Ar yr un pryd, gwahoddwyd uwch-gynrychiolydd ar ran Croeso Cymru i fod yn aelod o Is-grŵp Rhanddeiliaid yr Oriol Gelf Gyfoes.

Wrth i'r rhaglen arddangos ar gyfer yr Oriol gael ei datblygu ymhellach, o ddechrau i ganol 2024 ymlaen, rhagwelir y bydd y rhwydwaith orielau'n dechrau gweithio'n agosach gyda mentrau twristiaeth lleol. Gall hynny, er enghraifft, gynnwys strategaethau i ymgysylltu â phobl sy'n ymweld ag ardaloedd yr awdurdodau lleol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fydd yn cael eu creu gan yr Oriol ac er mwyn denu twristiaid i ymweld â bob lleoliad yn ystod y cyfnodau prysur.

### *Goblygiadau Ariannol*

Nid oes unrhyw ofynion ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r rheini y cytunwyd arnynt ar gyfer yr achos busnes amlinellol. Bydd unrhyw gostau ar gyfer gweithgarwch ar ôl

blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol yn unol â'r model busnes "fel arfer".

## **Argymhelliad 9.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor hwn am y cynlluniau i roi sicrwydd bod yr Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol yn amgylcheddol gynaliadwy.

**Ymateb:** Derbyn mewn Egwyddor

Bydd y rhaglen buddsoddiad cyfalaf yn cael ei gweithredu yn unol â safonau amgylcheddol, a bydd yn caniatáu i'r rhwydwaith orielau ddatblygu i fod yn fwy amgylcheddol gynaliadwy dros amser.

Ar lefel unigol, mae gan rwydwaith orielau'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol a phob un o bartneriaid y prosiect eu Polisiâu a'u Gweithdrefnau Amgylcheddol eu hunain, ac mae pob un ohonynt yn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed sero net a'r targed cynaliadwyedd. Er enghraifft, mae nifer o'r partneriaid yn y rhwydwaith orielau yn sefydliadau awdurdodau lleol ac yn cydymffurfio â chynlluniau amgylcheddol yr awdurdodau lleol.

Mae'r holl sefydliadau sy'n bartneriaid yn mynd ati'n barhaus i ddatblygu mwy o arferion gwaith cynaliadwy ar draws pob adran. ++Un enghraifft o hynny yw bod Amgueddfa Cymru wedi cytuno ar Bolisi Caffael Cynaliadwy newydd yn 2023. Bydd yr holl waith caffael a fydd yn cael ei wneud gan yr Oriol Gelf Gyfoes drwy Amgueddfa Cymru, megis dod o hyd i ddeunyddiau at ddibenion cadwraeth, yn cydymffurfio â'r polisi hwnnw.

Unwaith y bydd y rhaglen buddsoddiad cyfalaf wedi'i chwblhau, bydd y model ar gyfer yr Oriol Gelf Gyfoes yn lleihau ac yn byrhau amseroedd teithio i ymwelwyr drwy sicrhau bod y casgliad celf gyfoes cenedlaethol ar gael yn fwy hwylus, yn nes at le mae pobl yn byw, yn gweithio ac yn aros.

Er hynny, bydd rhagor o waith ar gynaliadwyedd amgylcheddol y model ar gyfer yr Oriol yn cael ei wneud yn ystod y cam nesaf er mwyn creu strategaeth annibynnol neu ddatganiad o egwyddorion ar gynaliadwyedd amgylcheddol.

### *Goblygiadau Ariannol*

Ni fydd unrhyw ofynion ariannol ychwanegol y tu hwnt i'r rheini y cytunwyd arnynt ar gyfer yr achos busnes amlinellol. Bydd unrhyw gostau ar gyfer gwaith ar ôl blwyddyn ariannol 2024-25 yn cael eu hystyried yn ystod prosesau pennu cyllidebau yn y dyfodol.



Ein cyf/Our ref DC/DB/00035/24

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, yr Iaith Gymraeg, Pwyllgor Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon

24 Ionwr 2024

Annwyl Delyth,

Diolch am eich gohebiaeth ar 16 Ionawr ynghylch Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) a'i benderfyniad i beidio ag ariannu National Theatre Wales o fis Ebrill 2024 ymlaen. Nid wyf mewn sefyllfa i gwrdd ar hyn o bryd.

O dan yr egwyddor ariannu hyd braich, mae'r Adolygiad Buddsoddi yn fater i CCC ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn ei benderfyniadau ariannu. Fe wnes i gadw mewn cysylltiad agos â CCC drwy gydol y broses Adolygiad Buddsoddi drwy'r trefniadau presennol a chefais fy hysbysu ynghylch cynnydd ar gamau allweddol. Mae fy swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad â CCC ar eich rhan i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennych yn eich llythyr.

Cymerodd CCC nifer o gamau drwy gydol cyfnodau datblygu, ymgeisio ac asesu'r Adolygiad Buddsoddi i sicrhau bod y broses yn deg ac yn briodol. Cynhaliodd CCC broses ymgynghori helaeth ar y dull newydd arfaethedig o ymdrin â'r Adolygiad Buddsoddi, y broses ymgeisio a'r broses apelio. Ceisiodd CCC gael ystod mor eang o sylwadau â phosibl gyda sesiynau ymgynghori wedi'u cynnal ar Zoom a chyfleoedd i'r sector ymateb drwy arolwg ar-lein ac e-bost. Drwy gydol y cyfnod hwn, aeth CCC ati i hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy amrywiaeth o rwydweithiau, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a phostiadau uniongyrchol a daeth tua 80 o ymatebion i law.

Gan ystyried tegwch a thryloywder, defnyddiodd CCC yr un broses ymgeisio ac asesu i'r holl ymgeiswyr, dyluniwyd y dull a'r cynigion mewn modd er mwyn darparu ar gyfer sefydliadau o bob maint, adnoddau a phrofiad o Adolygiadau Buddsoddi. Cyhoeddodd CCC [Adolygiad Buddsoddi: Ymateb i'r Ymgynghoriad](#), [Adolygiad Buddsoddi 2023: Canllawiau](#) a'r [Broses Apelio](#) cyn agor ar gyfer ceisiadau ar 9 Ionawr 2023.

Fe wnaeth CCC hefyd gynnig cefnogaeth yn ystod y cyfnod ymgeisio, gyda'r cyfle i gael sgwrs dywys gyda Swyddog CCC. Er nad oedd y sgysiau hyn yn rhoi unrhyw fanylion pellach y tu hwnt i'r Canllawiau a gyhoeddwyd, roeddent ar gael i gynorthwyo ymgeiswyr ar gwestiynau penodol. Fe wnaeth CCC hefyd gynnal a chadw Cwestiynau Cyffredin i

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 36**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynorthwyo sefydliadau ymhellach a sicrhau bod gan bob darpar ymgeisydd fynediad at yr un wybodaeth ar yr un pryd. Roedd sefydliadau hefyd yn gallu cyflwyno ceisiadau mewn nifer o ffyrdd, drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg, neu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a hefyd mewn fformat ysgrifenedig, sain neu fideo.

Cynhaliodd CCC broses asesu gadarn yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd, gan ganolbwyntio ar chwe egwyddor, sef Creadigrwydd; Ehangu Ymgysylltiad; Y Gymraeg; Cyfiawnder Hinsawdd; Meithrin Talent; a Thrawsnewid. Defnyddiodd CCC hefyd bum ffactor cydbwysu i gymryd golwg ehangach. Ar ôl cyhoeddi penderfyniad cyllid dangosol ym mis Medi, agorodd proses apelio annibynnol i sefydliadau a oedd yn aflwyddiannus a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr.

Trefnodd CCC i'w ddarparwr gwasanaeth archwilio mewnol wneud eu gwaith craffu eu hunain ar ei gynigion drwy gyfres o archwiliadau mewnol drwy gydol y prosiect. Archwiliodd y rhain nifer o feysydd, gan gynnwys y Canllawiau ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi, y broses apelio a'r broses asesu, ac roedd manylion amdanynt hefyd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau a gyhoeddwyd. Comisiynwyd yr archwiliadau mewnol hyn i roi barn annibynnol a sicrwydd ychwanegol i'r Cyngor ar gamau allweddol yr Adolygiad Buddsoddi. Fe wnaeth pob archwiliad roi sgôr o Sicrwydd Sylweddol.

Rwy'n deall nad yw pawb yn fodlon â phenderfyniadau'r Adolygiad Buddsoddi, ac os nad yw NTW yn fodlon, fe'u cynghorwyd y gallent ystyried mynd â'r mater i'r ombwdsmon cyhoeddus. Ni fyddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ymyrryd yn y broses.

Rwy'n ymwybodol o ymrwymiad CCC i ymgymryd ag ymyriadau strategol ar draws nifer o ddisgyblaethau o 2024 ymlaen. Mae'r Ymyriadau Strategol yn ymateb uniongyrchol i'r hyn a ddysgwyd a'r penderfyniadau a wnaed fel rhan o'r broses Adolygiad Buddsoddi. Rwy'n croesawu ymrwymiad CCC i ymgymryd ag ymyrraeth strategol ar theatr Saesneg.

Yn unol â Chanllawiau CCC a gyhoeddwyd, byddai sefydliadau a oedd yn aflwyddiannus yn eu cais i Adolygiad Buddsoddi 2023 yn dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid i CCC ar gyfer gweithgarwch prosiect penodol drwy ei raglenni loteri a gyhoeddir.

Yn ogystal, mae Cymorth Pontio ar gael i sefydliadau presennol ym Mhortffolio Celfyddydol Cymru, gan gynnwys National Theatre Wales, a fu'n aflwyddiannus yn eu cais yn yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cymorth ariannol ac yn cynnig cyngor ac arbenigedd ychwanegol a phenodol i helpu'r sefydliadau i addasu i beidio â derbyn eu cyllid blynyddol craidd mwyach.

Mae National Theatre Wales wedi cael gwybod am y ddau opsiwn hyn ac mae CCC yn aros am ymateb i'w gynnis i gwrdd â hwy i drafod eu hopsiynau wrth symud ymlaen.

Yn gywir,



**Dawn Bowden AS/MS**

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

Dawn Bowden AS

Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a

Thwristiaeth

## Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 - Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Annwyl Vaughan a Dawn,

Yn dilyn ein llythyr ar 18 Ionawr 2023, rydym yn ysgrifennu atoch gyda phryderon ynghylch setliad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Cawsom ohebiaeth gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar 10 Ionawr 2024 a wnaeth beri pryder mawr i ni.

Fel y gwyddoch, mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru nifer o swyddogaethau statudol. Mae'n ofynnol, er enghraifft, i ddarparu cofnod o adeiladau hanesyddol ac archaeoleg yng Nghymru, ac mae ganddo hefyd ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus sy'n ymwneud â Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain yn rolau sy'n darparu cofnodion pwysig sy'n cyd-fynd â'r gwaith a wneir gan Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r gostyngiad arfaethedig o 22 y cant yn eu cyllideb, yn unol â CADW, yn peri pryder sylweddol i ni. Yn eu llythyr, maent yn dweud:

*Byddai gostyngiad tecach o 10% i'n cyllideb yn dal i achosi trafferthion i ni, ond byddai'n prynu'r amser angenrheidiol i osgoi gwneud penderfyniadau brysiog a byddai'n ein galluogi i weithio gyda Cadw ac eraill i gynllunio ateb strategol a threfnus ar gyfer dyfodol y sector treftadaeth. Os na allwn sicrhau setliad grant sy'n well, bydd angen i ni gymryd camau ar unwaith i leihau nifer ein staff o 28 i 20 er mwyn osgoi sefyllfa lle gallai ein harian ddod i ben ychydig cyn Nadolig 2024.*

Fel y gwyddoch, mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn gweithio ar brosiectau pwysig ar hyn o bryd gan gynnwys:

- Prosiect newid hinsawdd CHERISH a sicrhodd gwerth €6 miliwn o gyllid;
- Llunio coflen o dystiolaeth a arweiniodd at ddyfarnu statws UNESCO i dirwedd llechi gogledd-orllewin Cymru;
- Gweithio gyda'r Sefydliad ar gyfer Treftadaeth Iddewig i drawsnewid synagog Merthyr yn ganolfan dreftadaeth;



- Cyflawni Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru (sy'n cael ei ariannu gan raglen Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru) – prosiect arloesol sy'n casglu, arddangos ac archifo straeon pwysig sy'n adlewyrchu Cymru gyfoes;
- Gweithio ar brosiect archaeoleg cymunedol ym mryngaer Pendinas.

Mae llawer o'r prosiectau hyn yn cyfrannu at amrywiaeth o amcanion a strategaethau'r llywodraeth, sy'n berthnasol i'ch adrannau, yn ogystal ag eraill gan gynnwys Cysylltiadau Rhyngwladol a Newid Hinsawdd. Rydym o'r farn y bydd y gostyngiad arfaethedig yn eu cyllideb yn effeithio'n ddifrifol ar eu gallu i barhau i gyflawni eu gwaith. Gallai hyn, yn ei dro, effeithio ar gyflawni nodau ac amcanion y llywodraeth.

Fel yr amlinellwyd yn llythyr y Comisiwn Brenhinol at ein Pwyllgor, bydd y gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb yn cael effaith negyddol iawn ar ei weithlu. Heb unrhyw newidiadau i'r setliad cyllideb arfaethedig, ni fydd ganddo unrhyw ddewis ond lleihau ei nifer staff 28 y cant (o 28 i 20). Hoffem wybod pam ei fod wedi cael ei neilltuo ar gyfer gostyngiad o'r fath, o'i gymharu â chyrrff eraill fel Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a Chyngor Celfyddydau Cymru.

O ystyried ei statws fel sefydliad gwarchoddedig, a'i rôl hanfodol wrth gyflawni llawer o amcanion y llywodraeth, gofynnwn i chi ailystyried y gostyngiad arfaethedig yn ei gyllideb o 22 y cant i 10 y cant. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb â'i bartneriaid yn y sector ehangach.

Byddem hefyd yn gofyn pa gymorth ariannol y gallwch ei ddarparu ar gyfer rhaglen diswyddo gwirfoddol.

Mae cadw straeon ein hamgylchedd adeiledig hanesyddol a'n hanes archaeolegol yr un mor bwysig i adrodd hanes Cymru â gwarchod y casgliad cenedlaethol. Byddem yn eich annog i ailystyried setliad y gyllideb ar gyfer Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru fel mater o flaenoriaeth.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



**Delyth Jewell AS**

**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.  
We welcome correspondence in Welsh or English.

Dear Delyth Jewell MS

We write to you jointly as PCS union representatives at Llyfrgell Genedlaethol Cymru - National Library of Wales and Amgueddfa Cymru – Museum Wales regarding the serious difficulties facing our organisations if budget cuts announced by the Welsh Government in December 2023 are implemented.

Cuts in government grant aid of 10.5% equates to around £3 million of cuts for the Museum and £1.3m of cuts for the Library which would be devastating to our organisations, their staff and their ability to achieve their objectives that benefit Wales in multiple ways. Museum Wales is operating with a known £1.5 million ongoing budget gap to bridge each year so this only compounds the situation, whilst the National Library faces a similar deficit and has been suffering from an almost total recruitment freeze for several months before the cuts were even proposed.

Both institutions have suffered from chronic underinvestment over many years according to the Welsh Government's tailored reviews and have also had to cope with funding cuts and restructuring programmes with a view to reducing costs prior to this latest announcement. What will be left of Wales' flagship cultural and national institutions if these cuts are imposed?

The implementation of these cuts to the National Library of Wales and Museum Wales is likely to mean:

- Compulsory redundancies in both institutions, on statutory redundancy terms in the case of the Library.
- A reduction in Amgueddfa Cymru's and Llyfrgell Genedlaethol Cymru's capacity to collect, conserve and display objects and memories of cultural importance and significance to the people of Wales and beyond.
- Much reduced outreach, including a reduction in Llyfrgell Genedlaethol Cymru and Amgueddfa Cymru's ability to work with diverse and disadvantaged groups and communities.
- At both institutions a reduction in lending their collections to Welsh regional bodies.
- A reduction in educational resource production and promotion, which would have a huge negative impact on the ability of schools to introduce the Welsh History elements of the new Curriculum.
- Diminished capacity to deliver on the wellbeing and other Future Generations Acts goals, which the Museum and Library are committed to deliver.
- Stoppage of almost all recruitment.

- Worsening terms and conditions for staff in both organisations as part of the attempt to deliver savings.
- The loss of rare, valuable, specialist skills that could not easily be replaced.
- Reduction of already reduced services.
- Stoppage of services we now offer
- Possible closure of one or more sites to Museum Wales with obvious impacts on local economies, historical amenity and collections retention
- Possible loss of copyright status for the National Library – the only copyright library in Wales
- Reduced accessibility two days a week to Museum Wales sites and their collections for visitors - moves to renege and overturn historically agreed weekend working agreements with museum staff, which would inevitably reignite disputes between staff and the museum, like that of 2014-16 when there was recurrent strike action.
- The possible introduction of entry charges at Museum Wales sites
- Negative impacts on the regional and wider Welsh economy as each institution contributes a significant amount to Wales's economy. Every £1 spent on the culture sector contributes £4 to the wider economy. For example Museum Wales contributed around £83 million in 2020. The National Library and the majority of Museum Wales sites are in what was the West Wales and the Valleys Objective 1 area– i.e. amongst the poorest areas in Europe.
- Negative effects on Welsh language provision and on the viability of the Welsh language in areas around the Museum and Library sites – The National Library is one of the most prominent workplaces which operates mostly through Welsh whilst at the Museum 57% of staff have Welsh language skills.

We ask you to do all you can in your position to lobby against and oppose these cuts which if implemented will make Wales a poorer place in every conceivable way and will see both institutions cease to fully function.

Yours sincerely

Sara Weale, Chair, PCS LLGC/NLW

Ann-Marie Hinde, Co-Secretary, PCS LLGC/NLW

Jeff Smith, Co-Secretary, PCS LLGC/NLW

Kirsty Williams, Secretary and acting Co-Chair, PCS Amgueddfa Cymru - Museum Wales

Lee Thomas, Treasurer and acting Co-Chair, PCS Amgueddfa Cymru - Museum



Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS  
Prif Weinidog Cymru

31 Ionawr 2024

Annwyl Mark,

## Y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad wedi bod yn ystyried ac yn adrodd ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a osodwyd gerbron y Senedd mewn perthynas â Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol Llywodraeth y DU (y Bil).

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, lle y gwnaethom gytuno ar ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3 ar y Bil, gwnaethom drafod y darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â marchnata uniongyrchol at ddibenion ymgysylltu democrataidd (cymal 114 yn y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Cyffredin). Yn ôl a ddeallwn, mae Llywodraeth y DU o'r farn nad yw'r cymal hwn yn ymwneud â'r broses cydsyniad deddfwriaethol yng Nghymru, ac nid yw memoranda cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd hyd yma wedi cynnwys cyfeiriad at y cymal hwn fel darpariaeth berthnasol.

Gwnaethom hefyd drafod eitem yn y Financial Times a gyfeiriodd at lythyr gan y Gweinidog Data a Seilwaith Digidol ar y pryd, Syr John Whittingdale, at Aelod o Senedd y DU a oedd yn cadarnhau, yn ôl y sôn, y gallai Llywodraeth y DU yn y dyfodol 'ddiffodd' dros dro rhai rheolau marchnata uniongyrchol yn y cyfnod cyn etholiad.

Oherwydd ein hystyriaeth o'r memoranda cydsyniad deddfwriaethol a'n diddordeb ehangach mewn materion cyfansoddiadol, byddem yn croesawu cael eich barn a rhagor o fanylion ynghylch nifer o faterion:

- Beth yw asesiad Llywodraeth Cymru o gymal 114 yn ymwneud â Rheol Sefydlog 29 (os o gwbl)?

2. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw asesiad o effaith bosibl y ddarpariaeth ar etholiadau datganoledig Cymru?
3. Mae cymal 114(5) o'r Bil yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn, ymgynghori â'r Comisiynydd Gwybodaeth ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried eu bod yn briodol. A yw Llywodraeth Cymru wedi cael unrhyw drafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch a ymgynghorid â Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag unrhyw effaith ar y defnydd o ddata sy'n ymwneud ag etholiadau datganoledig Cymru gan reoliadau a wneir o dan gymal 114?
4. A yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw gynllun gan Lywodraeth y DU i 'ddiffodd' rheolau marchnata uniongyrchol cyn etholiad cyffredinol yn y DU?

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn 14 Chwefror 2024.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,

*Huw Irranca-Davies*

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd





Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DB-PO-0031/24

Delyth Jewell AS

Cadeirydd

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol

31 Ionawr 2024

Annwyl Delyth,

Roedd adroddiad y Pwyllgor, "Honiadau'n ymwneud ag Undeb Rygbi Cymru", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2023 yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

*"Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei phrotocolau ar gyfer ymateb i bryderon a godir gyda Gweinidogion, Dirprwy Weinidogion a gweision sifil am ymddygiad amhriodol mewn sefydliadau yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar ganlyniad yr adolygiad hwn a dylai nodi pa gamau y bydd yn eu cymryd o ganlyniad."*

Yn fy ymateb i'r Pwyllgor ar eu hadroddiad dywedais fod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn ac y byddwn yn ysgrifennu'n ôl at y Pwyllgor o fewn chwe mis. Mae'n ddrwg gen i nad ydw i wedi gallu ysgrifennu yn gynt. Fodd bynnag, mae'r gwaith o adolygu'r protocolau bellach wedi'i gwblhau ac o ganlyniad mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dau newid sylweddol i'w threfniadau ar gyfer delio â phryderon a godir gyda Gweinidogion neu weision sifil am ymddygiad amhriodol mewn sefydliadau yng Nghymru.

Mae'r newid cyntaf yn ymwneud â'r amgylchiadau pan fo'r pryderon yn cael eu codi am sefydliad sy'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Fel yr eglurais wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, byddem bob amser yn disgwyl i gorff gymryd cyfrifoldeb dros arfer gwerthoedd cyhoeddus os yw'n derbyn arian cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys bod â phrosesau priodol ar waith ar gyfer delio â chwynion am ymddygiad amhriodol a sicrhau bod y prosesau hynny'n cael eu rhoi ar waith yn briodol pan godir pryderon.

Fel rhan o'r adolygiad, rydym yn cyflwyno protocolau diwygiedig o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer delio â phryderon a godir ynghylch derbynwyr grantiau a darparwyr gwasanaethau. Rwy'n atodi copi o'r protocol ac, fel y bydd y Pwyllgor yn gweld, mae'r protocol yn ymdrin â thri math o bryder, ac un ohonynt yw honiadau o ymddygiad neu ddiwylliant gwael. Er ein

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Dawn.Bowden@llyw.cymru)  
[Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales](mailto:Correspondence.Dawn.Bowden@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 44**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

bod yn sicr wedi ymchwilio pan godwyd pryderon o'r fath yn y gorffennol, mae'r canllawiau newydd yn fwy manwl, yn cryfhau'r dull gweithredu a byddant yn atgoffa holl swyddogion grant Llywodraeth Cymru o'r broses y dylid ei dilyn. Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn croesawu'r dull newydd hwn.

Roeddwn i'n meddwl y byddai'r Pwyllgor am weld y canllawiau newydd, ond byddwn yn ddiolchgar pe na bai'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi, gan fod rhywfaint ohoni'n ymwneud â'n gweithdrefnau ar gyfer brwydro yn erbyn twyll, y mae angen eu cadw'n gyfrinachol.

Lluniwyd y canllawiau gan y grŵp mewnol o swyddogion sy'n ffurfio Panel Sicrwydd Allanol Llywodraeth Cymru, a byddan nhw'n eu goruchwyllo. Mae'r Panel hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r timau sy'n cefnogi pob Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yn ogystal â chynghorwyr arbenigol o'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau, y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol, Archwilio Mewnol, Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Thîm Polisi'r Trydydd Sector. Mae'n cael ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg ac mae Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru hefyd yn aelod. Cylch gwaith y Panel yw cynghori Gweinidogion a Swyddogion Cyfrifyddu ar bob achos lle mae pryderon am sefydliad sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Gall y Panel ddefnyddio arbenigedd proffesiynol ei aelodau i gynghori ar achosion sy'n cael eu dwyn o'i flaen, a sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyson, a bod gwersi'n cael eu dysgu a'u lledaenu.

Ochr yn ochr â'r newid hwn, rydym yn adnewyddu ein canllawiau i dderbynwyr grantiau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn rydym yn ei ddisgwyl gan y rhai sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Mae'r ail newid sylweddol yn ymwneud ag achosion pan fo'r pryderon yn ymwneud â sefydliadau nad ydynt yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Fel y trafodwyd pan gyfarfûm â'r Pwyllgor y llynedd, mae'r cwmpas ar gyfer ymyrryd yn yr achosion hyn yn gyfyngedig iawn ac mae'n bwysig bod unigolion sy'n teimlo nad ydynt yn cael eu trin yn iawn gan eu cyflogwyr yn cael eu hannog i ddilyn y llwybrau sydd ar agor iddynt i fynd ar drywydd eu pryderon, boed hynny gan ddefnyddio'r prosesau mewnol neu'r llwybrau statudol.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai'n ddefnyddiol sicrhau bod gennym ddull cyson pan fo sylwadau neu hysbysiadau yn cael eu gwneud i Weinidogion neu weision sifil, boed yr hysbysiadau hynny'n dod yn uniongyrchol ai peidio pan fyddant yn cyflawni eu dyletswyddau swyddogol; a bod cyngor proffesiynol priodol ar gael iddynt yn gynnar.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau mewnol i Weinidogion a gweision sifil yn nodi y dylent ofyn am gyngor yn brydlon gan y Panel Sicrwydd Allanol, os cysylltir â hwy neu os byddant yn dod yn ymwybodol o bryderon a godir ynghylch ymddygiad amhriodol mewn sefydliad nad yw'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Panel, yn ei dro, yn cael ei gynghori gan y Cyfarwyddwr sydd â chyfrifoldeb dros Gydraddoldeb a Hawliau Dynol, ynghyd â mewnbnw cyfreithiol. Bydd cylch gorchwyl y Panel yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r swyddogaeth ychwanegol hon a bydd yn ffurfio rhan o'r adroddiad blynyddol ar waith y Panel sy'n ymddangos yng nghyfrifon cyhoeddedig Llywodraeth Cymru.

Rwy'n gobeithio y bydd y Pwyllgor yn teimlo ein bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r argymhelliad pwysig hwn a bod y newidiadau a amlinellir yma yn bodloni pryderon y Pwyllgor. Ers cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor, yn anffodus codwyd sawl achos arall o bryder ynghylch diwylliant ac ymddygiad amhriodol mewn perthynas â sefydliadau amlwg yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu ei gweithdrefnau yng ngoleuni'r achosion hynny a bydd yn gwneud unrhyw newidiadau pellach y credwn sy'n briodol.

Yn gywir,

Tudalen y pecyn 45



**Dawn Bowden AS/MS**

**Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth  
Deputy Minister for Arts, Sport and Tourism**

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## CEU 05

---

Senedd Cymru | Welsh Parliament

### Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee

### Diwylliant a'r berthynas newydd â'r UE | Culture and the new relationship with the EU

Ymateb gan: Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |  
Evidence from: Arts Council of Wales / Wales Arts International

---

---

#### Cyflwyniad

1. Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ariannu a datblygu celfyddydau Cymru. Rydym yn atebol i Senedd Cymru ac yn gyfrifol i Lywodraeth Cymru am y ffordd y mae'r arian a gawn ganddynt i gelfyddydau Cymru yn cael ei wario. Rydym hefyd yn ddsbarthwr Loteri ar gyfer celfyddydau Cymru.
2. Mae'r dystiolaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru wedi'i llywio gan wybodaeth a phrofiad Celfyddydau Rhyngwladol Cymru sy'n cynnal Gwybodfan Celf y DU fel pwynt gwybodaeth symudedd y DU ar ran y Cynghorau Celfyddydau/Asiantaethau Datblygu'r Celfyddydau a llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban.
3. Yn ystod yr aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, bu celfyddydau Cymru yn elwa'n sylweddol mewn tair ffordd benodol:
  - i. Rhyddid i symud pobl, nwyddau a gwasanaethau
  - ii. Arian uniongyrchol a gydfuddsodwyd i greu'r seilwaith cyfalaf sy'n asgwrn cefn i gelfyddydau Cymru heddiw yn ogystal ag arian a oedd yn annog cydweithio traws-wladol
  - iii. Cyfranogiad a chanfyddiadau o ran rhwydwaith a digwyddiadau i leoli ac ymgysylltu artistiaid â phartneriaid mewn 27 gwlad ac mewn rhaglenni rhyngwladol gyda gweddill y byd

**Mae'r Pwyllgor yn ystyried effaith ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ar y sector diwylliant a hoffai gael eich barn am y canlynol:**

**Effaith y berthynas newydd ar artistiaid a gweithwyr creadigol sy'n teithio ac yn gweithio'n drawsffiniol (gan gynnwys teithio a gweithio yng Nghymru).**

## Rhyddid i symud

4. Effaith ymadawiad y DU â'r Undeb ar artistiaid a gweithwyr creadigol o Gymru sy'n gweithio yng ngwledydd yr Undeb Ewropeaidd yw bod angen iddynt deall y rheoliadau ar gyfer pa bynnag aelod-wladwriaeth o'r Undeb y teithiant iddi gan gynnwys mynediad/fisâu ffin a'r rheoliadau trwyddedu i'w gwaith a pha mor hir y byddant yn aros.
5. Mae hyn yn fwy cymhleth pan fydd artistiaid neu gwmnïau'n teithio gwaith gan fod angen deall gwahanol reolau mewn gwahanol wledydd.
6. Gall rheol ardal Schengen sy'n caniatáu uchafswm arosiadau ymwelwyr o 90 diwrnod mewn 180 fod yn ataliad i gwmnïau teithiol a gweithwyr creadigol unigol. Clywsom hanesion bod hynny wedi effeithio'n benodol ar y diwydiant cerddoriaeth a chriwiau o'r DU a fyddai wedi cael gwaith o'r blaen ar deithiau hir yn Ewrop.
7. Mae bodolaeth yr Ardal Deithio Gyffredin wedi lleddfu rhywfaint ar y ffordd i alluogi symud pobl rhwng Cymru ac Iwerddon i barhau sy'n ddefnyddiol i sector y celfyddydau wrth weithio'n drawsffiniol ar rai prosiectau tymor byr a thymor hwy.
8. Yn yr un modd, mae artistiaid a gweithwyr creadigol o'r Undeb sy'n dod i weithio yma wedi gorfod deall gofynion a llwybrau mynediad newydd ffiniau'r DU sy'n berthnasol iddynt, yn ogystal â rhai o'r lleoliadau a'r gwyliau yma. Yn gyffredinol, digwyddodd y rhain drwy Ymgysylltiad â Thâl a Ganiateir, Nawdd i Weithwyr Creadigol a hefyd rhai gwyliau sydd wedi edrych ar lwybr yr Ŵyl Heb Drwydded.
9. Yn gyffredinol, mae'r sector yn dweud wrthym fod baich gweinyddol ac ariannol cynyddol ar unigolion a chwmnïau llai (fel ein rhai yma), oherwydd y prosesau dan sylw a'r costau cysylltiedig.
10. Mewn arolwg diweddar gan [UK Music](#) dywedodd bron i un o bob tri cherddor a ymatebodd fod eu henillion wedi'u heffeithio ers ymadawiad swyddogol y DU â'r Undeb. Dywedodd 43% hefyd o'r rhai a drawyd gan Frecsit nad oedd bellach yn hyfyw iddynt fynd ar daith o amgylch yr Undeb.

11. Bydd y materion hyn hefyd yn cael effaith enwedig ar fandiau a cherddorion sy'n dod i'r amlwg ac ar y cynigion a'r cyfleoedd i deithio'n rhyngwladol.
12. Mae gan rai sefydliadau a ariannwn brofiad uniongyrchol o'r baich gweinyddol ac ariannol cynyddol arnynt wrth deithio yn yr Undeb gan gynnwys NoFit State, Hijinx a Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru.
13. Ar lefel ddiwylliannol, mae parodrwydd i barhau â chydweithio rhwng unigolion a chwmnïau yng Nghymru a'r Undeb ond mae canfyddiad hefyd ac weithiau nerfusrwydd y bydd gweithio gyda'r DU/yr Undeb yn fwy problemus.
14. O safbwynt ieithyddol, mae colled sylweddol o ran prosiectau amlieithog yn dod i Gymru gyda chefnogaeth rhaglen Ewrop Greadigol. Mae bwlch hefyd i'r Gymraeg o ran y cymorth sydd ar gael ar gyfer cydweithio rhwng ieithoedd lleiafrifol, drwy brosiectau Cydweithredu Tiriogaethol (Interreg). Er bod ewyllys dda gan sawl diwylliant lleiafrifol arall yn yr Undeb, a chydymdeimlad at iaith a diwylliant Cymru, mae'n ddrutach ac yn anos oherwydd y rhwystrau i'n hartistiaid fod yn rhan o brosiectau a ariennir gan yr Undeb.

#### **Effaith trefniadau masnachu newydd sy'n ymwneud â gweithgarwch diwylliannol**

15. Mae'r trefniadau masnachu newydd gyda'r Undeb wedi cael effaith ar y sector diwylliannol, yn enwedig y rhai sy'n symud nwyddau dros dro. Er enghraifft, setiau theatr symudol a phropiau, offerynnau, offer cerddorol, gweithiau celf ar gyfer arddangosfeydd ac ati.
16. Mewn llawer o achosion, lle mae nwyddau'n cael eu mewnfario/allfario dros dro ac na chânt eu gwerthu, nid oes tollau yn ddyledus. Ond yn aml mae dryswch ynghylch y broses dderbyn dros dro ac a oes angen trwydded ATA ai peidio.
17. Mae trwydded ATA yn ddrud, ac nid yw bob amser yn berthnasol i artistiaid a gall fod diffyg hyder gan artistiaid wrth ddefnyddio'r drwydded. Roedd sector y celfyddydau perfformio yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae'n addas am setiau mawr i berfformiadau rheolaidd neu i sefydliadau mwy. Ond nid yw bob amser yn addas i sefydliadau llai neu artistiaid unigol, gan gynnwys artistiaid gweledol, neu artistiaid newydd.
18. Mae angen i gerddorion fod yn ymwybodol o deithio gydag offeryn sy'n cynnwys deunyddiau gwarchoddedig fel ifori y bydd angen tystysgrif CITES wrth groesi ffin yr Undeb/y DU. (Mae hyn yn berthnasol i bropiau/gwisgoedd hefyd).

19. Dywedodd Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC wrthym: "mae'n rhaid i ni ymrwymo rhagor o adnoddau (amser ac arbenigedd) mewn perthynas â gofynion CITES, cargo a nwyddau. Yn yr un modd, mae costau ychwanegol lle mae angen mewnfario/allforio eitemau. Er enghraifft os ydym yn archebu offer o wledydd yr Undeb. Mae hyn fel arfer yn ychwanegu 20% at y costau."

### Argaeledd canllawiau a chymorth i'r sector am y berthynas newydd rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd

20. Ers i'r DU ymadael â'r Undeb, mae nifer o lefydd sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth i'r sector diwylliannol ond mae bylchau yn y ddarpariaeth hefyd.
21. Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n arwain ar fenter [Gwybodfan Celf y DU](#), mewn partneriaeth â'r Alban Greadigol, Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon a Chyngor Celfyddydau Lloegr. Bu'r Gwybodfan yn cefnogi'r sector i edrych ar rai o'r materion ymarferol i artistiaid gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddod i'r DU ond hefyd gyda mynd i'r Undeb gan fod llawer o gwestiynau ymarferol wedi'u codi gan y sector.
22. Mae Gwybodfan Celf y DU yn cynnig gwybodaeth ymarferol yn rhad ac am ddim i helpu artistiaid, gweithwyr creadigol a sefydliadau i ddeall rheolau a gofynion gweinyddol ymweliadau creadigol â'r DU. Bu'r cymorth ar ffurf adnoddau (gweminarau, canllawiau ar-lein ac ati).
23. Canolbwyntiodd rhai o'r digwyddiadau a'r gweminarau ar agweddau ymarferol fel fisâu neu drwyddedau ac eraill ar gyfleoedd ariannu rhyngwladol (er enghraifft Cronfa Ryngwladol y Pedair Gwlad).
24. Mae Gwybodfan Celf y DU yn rhan o rwydwaith ehangach o [Bwyntiau Gwybodaeth Symudedd](#) ar draws yr Undeb a'r tu hwnt. Mae'r grŵp dan ymbarél y rhwydwaith symudedd artistiaid [On the Move](#), y mae Cyngor Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru yn aelod ohono. Mae'r pwyntiau symudedd eraill yn darparu gwybodaeth ymarferol i artistiaid sy'n teithio i'w gwledydd. Mae saith ohonynt mewn aelod-wladwriaethau'r Undeb. Yn benodol, mae **Touring Artists** yn yr Almaen a **Cultuurloket** yng Ngwlad Belg wedi datblygu canllawiau ac adnoddau yn benodol ar gyfer cwestiynau ar ôl Brexit.
25. Ochr yn ochr â hynny, mae llawer o gyrrff arweiniol sector y DU wedi sefydlu cefnogaeth ac arweiniad penodol i'w haelodau. Y diwydiant cerddoriaeth yn benodol a fu ar flaen y gad.

Ymhlith y rhai sydd wedi datblygu adnoddau mae **ISM** (Cymdeithas Annibynnol y Cerddorion); **MU** (Undeb y Cerddorion); **Gweinyddu'r Celfyddydau**; **ABO** (Cymdeithas Cerddorfeydd Prydain); **Xtrax** (Celfyddydau Awyr Agored); **Cymorth i Gerddorion** y **DU**.

26. Mae gan Lywodraeth y DU dudalen ar ei [gwefan](#) am ymweld â'r DU fel gweithiwr creadigol.
27. Mae gan **PEARLE** (Perfformiadau Byw Ewrop) nifer o adnoddau ar eu gwefan sy'n ddefnyddiol i bobl creadigol yn y DU sy'n gweithio yn yr Undeb.
28. Yn gyffredinol, mae canllawiau ar gael ond, er enghraifft, nid yw'r Pwyntiau Gwybodaeth Symudedd yn bodoli ym mhob gwlad felly gall gymryd llawer o amser i artistiaid a chwmnïau unigol ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. Mae angen cefnogaeth, o ran y cymorth ariannol sydd ei angen i dalu costau'r weinyddiaeth ychwanegol.

#### Yr effaith ar fynediad at raglenni a rhwydweithiau ariannu

29. Mae'n fater cymhleth a byddai angen rhagor o waith ymchwil a monitro data i asesu effaith yr ymadawiad â chronfeydd ariannu'r Undeb, yn enwedig y buddsoddiad a wnaed i seilwaith celfyddydau Cymru gan Gydyfeirio a Chronfeydd Amcan yr Undeb i'w gymharu â rhaglen Ffyniant Bro'r DU. Nid oes mecanwaith ar hyn o bryd i wneud y gwaith.
30. Heb os, mae sector celfyddydau Cymru yn gweld eisiau arian Ewrop Greadigol a mynediad at gyfranogi o'r prosiectau a'r rhwydweithiau yma. Hefyd mae gan raglen Ewrop Greadigol ffrwd symudedd (Symudiadau Diwylliannol Ewrop) nad yw artistiaid o Gymru yn gallu cymryd rhan ynddi.
31. Mewn ffordd debyg i gytundeb y DU i ymgysylltu â Gorwel Ewrop (rhaglen ariannu ac ymchwil), gallai'r DU gymryd rhan yn rhaglen Ewrop Greadigol gan fod y rhaglen ar hyn o bryd yn cynnwys aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Undeb.
32. Yn 2020, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Dafydd Elis-Thomas a'r Gweinidog dros Gysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, at Lywodraeth y DU ar y pryd i annog ailystyried cyfranogiad y DU o Ewrop Greadigol, gan awgrymu y gallai Cymru ofyn am aelodaeth ranbarthol i drydedd wlad.
33. Er bod rhaglen wedi'i datblygu i gefnogi cyfnewidfeydd astudio rhyngwladol (Taith), nid oes unrhyw ddewis arall wedi'i sefydlu yn lle Ewrop Greadigol naill ai yng Nghymru nac ar draws y DU. Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn parhau i redeg rhaglen y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol, ac mae Cyngorau Celfyddydau/Asiantaethau Datblygu'r

Celfyddydau y 4 cenedl wedi sefydlu Cronfa Ryngwladol y Pedair Gwlad, ond cronfeydd bach ydynt lle mae ceisiadau'n gyson am fwy o lawer na'r hyn y gall yr arian ei gefnogi.

34. Mae'n anodd cael gwybod effaith yr hyn a allai fod wedi'i fuddsoddi pe bai'r DU yn dal i fod yn aelodau o'r Undeb ac Ewrop Greadigol yn benodol. Ond sylweddol yw'r effaith ar sefydliadau sy'n bodoli i rwydweithio ledled yr Undeb. Enghraifft dda yw Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau (y derbynnydd mwyaf llwyddiannus o arian Ewrop Greadigol yng Nghymru) a'r effaith andwyol ar eu gallu i gysylltu awduron yng Nghymru â'i rhwydwaith Ewropeaidd. Mae'n hollol anghynaladwy bod yr arian cyhoeddus sydd eisoes dan bwysau i gelfyddydau Cymru yn pontio'r bwlch mewn gweithgareddau a ariannwyd gan yr Undeb.
35. Pan oeddem o hyd yn aelodau o'r Undeb ac yn rhan o Ewrop Greadigol, cydgynhaliwyd y Ddesg Ewrop Greadigol yng Nghymru gan Gymru Greadigol a Chyngor Celfyddydau Cymru. Roedd yn fodel defnyddiol iawn ac yn rhywbeth y byddai Cyngor Celfyddydau Cymru yn awyddus i'w archwilio fel rhan o'r Memorandwm newydd o Ddealltwriaeth gyda Chymru Greadigol.
36. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn buddsoddi mewn rhai mentrau i ganiatáu i artistiaid Cymru barhau i ymgysylltu â rhwydweithiau Ewrop drwy ein haelodaeth o Culture Action Europe, IETM, Res Artis ac On the Move a digwyddiadau fel Womex a Tanzmesse.
37. Ond gyda chostau cynyddol a llai o arian cyhoeddus ar gael, mae gwir fygythiad i gyfranogiad sefydliadau o Gymru o rwydweithiau Ewropeaidd allweddol. Mae hyn yn arwain at y canfyddiadau nad ydym am ymgysylltu felly. Mae dryswch am symudedd artistiaid hefyd yn peryglu sefyllfa artistiaid o Gymru i gael eu ystyried/dewis ar gyfer gwaith yn yr Undeb ac ystyrir felly fod artistiaid o aelod-wladwriaethau yn haws i'w cyflogi. Yn yr un modd, mae hyn yn effeithio ar benderfyniadau artistiaid rhyngwladol sy'n teithio Ewrop i betruso rhag dod i'r DU.
38. Mae ymddatod oddi wrth rwydweithiau Ewrop yn arwain at ostyngiad mewn gwybodaeth yn sector Cymru o'r cyfleoedd sydd ar gael i'n hartistiaid i weithio'n rhyngwladol. Efallai y bydd artistiaid yn colli allan yn y cyfleoedd datblygu proffesiynol a'r buddsoddiad o'r tu allan i'r DU.
39. Mae hefyd gwir effaith yn nhermau'r canfyddiadau diwylliannol ehangach o Gymru fel cenedl, y mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn mynd i'r afael â nhw drwy gydariannu ymgyrchoedd cysylltiadau diwylliannol gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru.
40. Er enghraifft, mae canfyddiadau o'r DU yn Ffrainc ar ei lefel isaf erioed. Roedd cynnal rhaglen ddiwylliannol Cymru yn Ffrainc yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd yn gyfle euraidd i newid canfyddiadau, er bod angen llawer rhagor o ran diplomyddiaeth ddiwylliannol i

wrthweithio canfyddiadau negyddol o'r DU yn Ffrainc. Bydd y ffocws ar y DU a Ffrainc a fydd yn arwain at y Gemau Olympaidd ym Mharis yn 2024 yn gyfle arall o'r fath a hefyd bydd y chwe phrosiect a ariennir drwy Gronfa Cymru yn Ffrainc, cydfuddsoddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru, y Cyngor Prydeinig a Llywodraeth Cymru.

41. Mae parhau i gysylltu drwy rwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yn hanfodol i artistiaid a sefydliadau Cymru barhau i weithio'n rhyngwladol. Mae aelodaeth o lawer o rwydweithiau'r Undeb ar agor y tu hwnt i wledydd yr Undeb, felly mae cyfle i ymuno â'r rhwydweithiau yma. Ond er mwyn cymryd rhan weithredol ynddynt a gwireddu pob budd, mae angen buddsoddiad (amser, costau teithio ac ati). Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gefnogaeth i hyn y tu allan i Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

#### Unrhyw newidiadau i'r berthynas rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd a allai wella gweithio trawsffiniol i'r sector diwylliant

42. Bu llawer o gyrff arweiniol sector y DU, yn enwedig yn y sector cerddorol, yn lobio Llywodraeth y DU am hepgor yr angen am fisa i'r sector diwylliannol wrth deithio yn yr Undeb/y DU ac am leihau'r baich gweinyddol yn enwedig ar gyfer symud nwyddau diwylliannol dros dro.
43. Mae adroddiadau ac argymhellion diweddar yn cynnwys [Let the Music Move](#) gan UK Music a [Paying the Price](#) gan yr ISM. Er eu bod yn benodol i gerddoriaeth, mae'r materion yn berthnasol ar draws llawer o sector y celfyddydau perfformio.
44. Mae Gwybodfan Celf y DU wedi partneru gydag On the Move ar gyfer gweminar am gyfnewidfeydd yr Undeb/y DU yn y Celfyddydau Gweledol, gan arwain at [bapur polisi gydag argymhellion](#) ar ochr yr Undeb.

#### Unrhyw sylwadau eraill

45. Hoffai Cyngor Celfyddydau Rhyngwladol Cymru/Cyngor Celfyddydau Cymru nodi eto fod angen cefnogaeth ar y DU i gymryd rhan unwaith eto yn y rhaglen Ewrop Greadigol. Mae'n siomedig nad yw hyn wedi'i gynnwys ar hyn o bryd ym Mlaenoriaethau a Strategaeth y Pwyllgor ar gyfer 6ed Senedd 2021-26. Byddai cefnogaeth i hyn o fudd enfawr i'r sector diwylliannol, gan gynnig cyfleoedd newydd i artistiaid a dangos parodrwydd ac ymrwymiad i adfer ein hyder mewn cydweithredu diwylliannol ar draws y DU/yr Undeb.



